# Cofnodion cryno - Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 2 - Senedd**

**a fideogynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Mercher, 6 Mawrth 2024

Amser: 09.29 - 12.09

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/13730

# Hybrid

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Paul Davies AS (Cadeirydd)<br>Luke Fletcher AS<br>Llyr Gruffydd AS (yn lle Luke Fletcher AS)<br>Samuel Kurtz AS<br>Vikki Howells AS<br>Buffy Williams AS<br>Hefin David AS |
| Tystion: | Vaughan Gething AS, Gweinidog yr Economi<br>Lesley Griffiths AS, Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd<br>Gian Marco Currado, Llywodraeth Cymru<br>Dr Richard Irvine, Llywodraeth Cymru<br>Helen John, Llywodraeth Cymru<br>Jo Salway, Llywodraeth Cymru |

| | |
|---|---|
| | Tom Smithson, Llywodraeth Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Rob Donovan, Clerc<br>Evan Jones, Dirprwy Glerc<br>Ceri Thomas, Swyddog Cymorth y Pwyllgor<br>Aled Evans, Cynghorydd Cyfreithiol<br>Chloe Corbyn, Ymchwilydd<br>Sara Moran, Ymchwilydd<br>Katy Orford, Ymchwilydd<br>Gareth Thomas, Ymchwilydd |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Luke Fletcher AS ar gyfer eitem 3. Dirprwyodd Llyr Gruffydd ar ei ran.

1.3 Gwnaeth Luke Fletcher AS a Llyr Gruffydd AS ddatgan eu bod yn aelodau o Gymdeithas Filfeddygol Prydain. Gwnaeth Luke Fletcher AS ddatgan ei fod yn aelod o is-grwpiau o Fwrdd Pontio Tata Steel UK.

## 2 Papurau i'w nodi

2.1 Nododd y Pwyllgor y papurau.

2.16 Y Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol: Y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol

2.2 Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Ffioedd a Thaliadau) (Diwygio) 2024

2.3 Gorchymyn Daliadau Amaethyddol (Unedau Cynhyrchu) (Cymru) 2024

2.4 Ardaloedd Draenio

2.5 Rheolaethau Ffiniau

2.6 Dyfodol Dur Cymru

2.7 Rheoliadau'r Amgylchedd a Materion Gwledig (Dirymu a Darpariaeth Ganlyniadol) 2024

2.8 Cytundeb Cynhwysfawr a Blaengar ar gyfer Partneriaeth y Môr Tawel (CPTPP)

2.9 Adroddiad Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig: Ynni niwclear ac economi Cymru

2.10 Rheoliadau Pysgodfeydd Môr (Y Comisiwn Rhyngwladol ar Warchod Pysgod Tiwna Iwerydd) (Diwygio) (Rhif 2) 2024

## 3 Sesiwn Graffu Gyffredinol ar Waith y Gweinidog: Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd

3.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a’r Trefnydd.

3.2 Cytunodd y Gweinidog i ysgrifennu at y Pwyllgor, gan ddarparu nodyn ar adroddiad Colin Birch – adroddiad a adolygwyd gan gymheiriaid – ar effaith y broses o gael gwared ar fywyd gwyllt heintiedig ar achosion o TB mewn gwartheg yn Lloegr.

## 4 Sesiwn Graffu Gyffredinol ar Waith y Gweinidog: Gweinidog yr Economi

4.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Weinidog yr Economi.

4.2 Cytunodd y Gweinidog i ysgrifennu at y Pwyllgor i ddarparu ffigurau ynghylch nifer y bobl sy’n manteisio ar gyfleodd i ddilyn prentisiaethau, a hynny yng nghyd-destun rhaglenni mis Ionawr.

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

5.1 Derbyniwyd y cynnig i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod.

## 6 Trafod y dystiolaeth yn dilyn y cyfarfod

6.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a gafwyd. Cytunwyd y byddai'r Cadeirydd yn ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ynghylch yr ymgysylltu gweinidogol sy’n digwydd â Gweinidogion Cymru mewn perthynas â materion datganoledig.